

## Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch 2011

### Beirniadaethau y Gadair, y soned a'r delyneg: Aled Gwyn

#### 1. Cystadleuaeth y Gadair: Gwreiddiau

*Mali* Myfyrdod ar fwthyn gwyngalchog. Mynega'r bardd ei deimlad a'i sentiment tuag at yr hen aelwyd yn ddiffuant, ac mae'n dyheu am gael gweld y bwthyn sydd bellach yn adfail yn gartref i deulu eto. Mae tuedd bach i'r gerdd oherwydd y mesur a ddewiswyd i fod braidd yn unffurf o ran ei phatrymau.

*Ers Talwm* Cerdd ar fydr ac odl. Mae'r mynegiant drwyddi yn gynnil a diwastraff ac mae'n amlwg bod y bardd wedi'i chynllunio'n fanwl. Mae'r bardd yn llwyddo i greu naws a chyfleu diffuantrwydd. Efallai y byddai'r gerdd yn elwa pe bai rhai o'r penillion yn cydio wrth ei gilydd yn hytrach na bod y patrwm penillion unigol drwyddi'n llwyr. Ond hoffais y pennill 'Bum yma yn byseddu...' A'r pennill am y fam yn plannu blodyn ac mae'r clo yn rymus.

*Y Canol Llonydd* Cerdd ar destun 'Y Frwydr' ac yn ôl yr wyneb ddalen cerdd yw hi a fwriadwyd i Eisteddfod Chwilog ym mis Ionawr.

*Inshicelen* Cerdd sy'n datblygu thema ymlyniad wrth ddarn o wlad - Yr Alban yn yr achos hwn. Nid yw'r bardd yn ddiffygiol na phrin ei ddawn o ran medr a sgil ac mae ganddo afael dda ar rythmau cyfoethog. Mae'r mynegiant mewn sawl rhan o'r gerdd yn effeithiol a dilys. Gwyliwch serch hynny, y duedd i fod yn rhyddieithol weithiau ee.. 'Yna'r mis Gorffennaf hwnnw...hefo ei pherthnasau', hefyd, 'a'i chael i yfed rhyw ddiferyn neu ddau'. Ond drwy'r cyfan caiff naws telynegol hudol ei greu. Gwyliwch y mân frychau iaith a nodir ar y copi.

*Llwyd y Berth* Ceir agoriad sy'n gwneud y gerdd yn destunol ar unwaith. Yn ail ran y gerdd mynegir ysfa Creini am ddihangfa. Darlunnir cyflwr G(i)ofanni yn gofiadwy hefyd. Ar wahân i ambell gymal megis 'a staenio yn ddu bitsh ei ddwylo' a 'sibrwd y ferch o weinyddes' sy'n wan eu cystrawen mae'r mynegiant yn gynnil a chyhyrog. Braidd yn llafurus yw'r clo gwaetha'r modd.

*i.dot.com.dim.ond.enw* Cerdd gyfoes yn ddiddadl. Portreadir ymchwilio'r we i ganfod ac olrhain tras. Mae'r syniad yn un ardderchog ac at ei gilydd mae'r thema yn cael ei gweithio'n effeithiol. Ceir ambell ddarn sy'n rhyddieithol eu cywair e.e. 'Darnau o'n doeau wedi hen oeri ond bellach yn un cynhesrwydd...nas gwyddwn ddim byd oll amdanynt.'

*Nanw* Telyneg a geir gan y bardd hwn ac mae'r mynegiant yn ddiwastraff drwyddi. Darlunnir person yn byw gyda'i atgofion sy'n ffynhonnell pleser a mwynhad iddo. Mae gan y bardd gryn ddawn i greu darluniau cofiadwy e.e. 'straeon yn wen ar ei wyneb.' Nid yw'r trydydd paragraff cystal o ran ei fynegiant gan fod rhyw elfen ddryslyd yn y dweud wrth geisio cynnal y ddelwedd. Ond mae'r diwedd glo eto yn llwyddo er bod elfen ryddieithol yn y brawddegau.

*Maldwyn* Cywydd wedi'i seilio ar drychineb Japan ac yn datgan bod gan natur rym gwyrthiol i adfer dros amser. Mae hon yn thema oesol a welir yng ngwaith beirdd ac arlunwyr ar hyd y canrifoedd. Oherwydd natur oesol y gred a'r argyhoeddiad hwn mae'n galw am ddawn arbennig i fynegi'r peth yn newydd a thrawiadol. Mewn cywydd mae *Maldwyn* yn rhoi cynnig da arni. Yn y darn cyntaf disgrifir cyflafan y Tsunami yn Japan wrth i'r miliynau weld yr uffern ar y teledu. Ceir peth trafferth wrth geisio mynegi'r sefyllfa e.e. yn niwedd y paragraff cyntaf ac mae'r gynghanedd wedi golygu bod 'broc' heb ei dreiglo. Mae'r ail ddarn dipyn yn gryfach na'r darn agoriadol ac fe geir llinellau a chwpledi cofiadwy a mynegir y gred bod natur yn gallu adfer ei hun yn gadarn iawn.

*Berwyn* Cerdd sicr ei thrawiad ar fydr ac odl sy'n hen gyfarwydd. Mae'r pennill agoriadol yn mynegi awydd y bardd i fynd yn ôl at y gwreiddiau yn y mynyddoedd. Yna eir ati i ddarlunio hud y cornant a'r mynydd a gwneir hynny yn lan a diwastraff. Yna mae'r bardd yn cyrraedd yr hen gartref sy'n adfail, ac er gwaethaf y dagrau, mae'r hen fwthyn yn dal i fod yn hardd o ran yr atgofion a ddaw o'i weld. Mae'r gerdd drwyddi hyd at y diwedd glo sy'n llawn teimlad a sentiment yn un ddiffuant. Ond ei gwendid yw bod y mynegiant braidd yn ystrydebol, ac fe geir sawl tinc yn yr odlau a'r ansoddeiriau a'r clymau geiriau sy'n adleisio hen batrymau a cherddi traddodiadol.

*Bryngors* Telyneg yn moli harddwch a gwynwch y pren collen. Mae'r penillion yn adleisio'r penillion telyn traddodiadol. Yn y pennill cyntaf mae'r bedwaredd linell sillaf yn fyr ac mae hynny'n peri colli'r rhythm. Gwylwch y duedd hefyd, sydd braidd yn hen ffasiwn bellach o roi'r ansoddair o flaen yr enw. e.e. 'wanwyn ddyddiau' a 'boeth dymheredd'. Ond wedi dweud hyn mae'r bardd wedi llwyddo i weithio'n gelfydd drwy'r tymhorau a chynnwys cyfeiriadau at eu nodweddion gwahanol a chyrraedd uchafbwynt wrth foli'r gollen a'i gwreiddiau cadarn.

*Hiraeth* Cerdd sy'n delyneg wedi'i saernïo'n grefftus. Mae'r bardd yn sicr ei drawiad heb fod yn rhy uchelgeisiol ac mae'n llwyddo i gyfleu hanes rhosyn a welodd, ac mae'n dyfalu tybed ai gwreiddyn rhosyn ei nain oedd y rhosyn hardd a welsai wrth fynd am dro yng ngardd hen wraig arall. Mae'n cloi'r gerdd yn galaru na fuasai sbrigyn bach o'i rhosyn hardd ar ei bedd. Nid yw'r syniad yn eithriadol o newydd ac mae'n dibynnu ar weithio teimlad a sentiment yn drwm.

*Gobaith* Cerdd ffres sy'n darlunio ysgol Gymraeg ond amlddiwylliannol yng Nghaerdydd a'r plant a ddarlunnir o gefndiroedd amrywiol a'u gwreiddiau mewn diwylliannau gwahanol. Disgrifir a phortredair y gwahanol blant yn gynnil a chofiadwy ond tybed a yw'r mynegiant weithiau ychydig yn llac

ac o ganlyniad mae rhai brawddegau yn ymylu ar fod yn rhyddieithol. Ceir paragraff clo effeithiol a chaiff neges herfeiddiol a gobaith dwfn y gerdd eu cyfleu yn gofiadwy. Mae rhyw ddiwylledd hyfryd yn y gerdd ar ei hyd.

*O'r Coed* Cerdd er cof am Heda Kovaly a aned yn ninas Prag ar ddiwedd ail ddegawd y ganrif ddiwethaf. Mae'r gerdd yn mawrhau ei chof gan gyfeirio at ei dewrder drwy gyfnodau'r gwerysilloedd nwy a'r cyfnod comiwnyddol blin yn Tsiecoslofacia a gormes Stalin; diwedd anhymig ei phriod ac ymlaen at obaith gwanwyn Prag yn chwedegau'r ganrif ddiwethaf, ac yna'r cyfle ddaeth iddi i ddathlu rhyddid ei gwlad yn y diwedd. Mae'r gerdd wedi ei datblygu'n feddylgar ac yn chwaethus ac mae'r ddyfais o ddefnyddio'r geiriau am y deryn bach swil fel byrdwn yn rhoi unoliaeth i'r gerdd ar ei hyd. Mae'n deyrnged deilwng i wraig oedd yn amlwg yn arwres. Ond ofnaf fod yn rhaid i'r bardd ymroi eto i dynhau ei grefft er mwyn osgoi'r cyffyrddiadau rhyddieithol sy'n britho'r gerdd.

*Mwclis y Glaw* Cerdd rethregol ei naws ac mae gan y bardd mae'n amlwg afael ar rythmau'r wers rydd. Thema'r gerdd yw'r wasgfa enbyd ar gefn gwlad ac ar amaethyddiaeth gan, yn rhannol, bwysau'r archfarchnadoedd, ac yn benodol y bygythiad i unigolion sydd yn anobeithio yng nghanol y sefyllfa ddyryst hon. Drwy'r gerdd caiff yr anobaith, yr unigrwydd a'r iselder ysbryd eu cyfleu a'u cyflwyno heb i'r bardd ildio i felodrama ffug ac annilys. Er hynny o bryd i'w gilydd mae'r bardd yn ei chael hi'n anodd i ddilyn ei drywydd ac ar adegau mae'n dangos elfen o orymdrech e.e. 'Gwireddwyd dy hunllef waethaf...blethwaith ddigwlwm o anobaith'. Mae greddf sicr y bardd i mi wedi llacio'i gafael yn y fan hon. Ond eto mae'r diweddglo yn rymus a gafaelgar. Cerdd neilltuol o bwerus.

*Powys* Cerdd ddirodres yn mynegi profiad llw o feibion a merched a adawodd froydd eu mebyd am resymau ymarferol. Egyr y gerdd â'r bardd yn disgrifio ei gyswllt annwyl â bro ei enedigaeth a'i fagwraeth. Dewiswyd arddull uniongyrchol ac

mae'r bardd gan amlaf yn sicr ei drawiad ac mae idiom y dweud yn ddi-feth bron. Weithiau mae'n llithro e.e. Byddai 'rhoi sglein terfynol ar' a 'gyda threigl y blynyddoedd' yn nes ati. Disgrifir yr ardal yr ymgartrefodd y bardd ynddi yn effeithiol iawn gan danlinellu nad yw'r ardal newydd yn lle sy'n gallu ennill serch person yn llwyr. Yna daw'r gerdd i'w huchafbwynt yn y ddau baragraff clo gyda'r dadrithiad am yr hyn a ddigwyddodd yn henfro'r bardd a'r sylweddoliad er gwaethaf popeth bod gan fro a chartref maboed afael enbyd ar berson ac mae'r geiriau olaf yn wirioneddol afaelgar a chofiadwy.

*Twtil* Rhoddir is deitl eglurhaol i'r gerdd yn ei lleoli yn Stryd Llyn, Caernarfon, ar bnawn Sadwrn. Cerdd gynganeddol yn englynion a darn cywydd. Mae'r awdur yn gynganeddwr ystwyth ac mae'n darlunio hen wraig dlawd, a brodor o'r dref, sy'n mynd ynglŷn â'i dyletswyddau ar yr un patrwm ag a ddilynwyd ganddi am y rhan fwyaf o'i bywyd. Mae'r gerdd yn cyfuno pathos a hiwmor ac mae gan y bardd ddawn at y dywediad neu'r epigram bachog 'y gwir mond torth mae'n gario'. 'Try hen lôn yn estron wlad/dydd sur hyd stryd ddi-siarad.'. Mae rhyw duedd bach i'r cywydd fod ychydig yn gypledog sy'n sarnu rhediad y naratif. Ceir diwedd glo arteithiol serch hynny 'heb ddygymod a'i thlodi/ei thref sy'n ei heithrio hi.' Mae hon yn gerdd sy'n dangos llawer o addewid gan rywun ifanc mi dybiaf, ac wrth i'r grefft gryfhau bydd y bardd hwn yn creu pethau cryfach fyth.

*Bro Dawel* Mae cefndir y gerdd hon yn ardal Conwy ac mae'n gerdd sy'n tristau a galaru colli rhuddin a dewrder. Mae ynddi gyfeiriadau sy'n lleoli'r gerdd yn gadarn mewn un bro. Mae'r cyfeiriadau at John Iorc yn cyfeirio at yr Archesgob John Williams a amddiffynnodd Gastell Conwy ar ran y Brenin yn y Rhyfel Cartref. Braidd yn anwastad yw'r gerdd fel cyfanwaith, ond mae ei hidiom yn chwaethus a rhywiog, ac fe geir ambell baragraff megis paragraffau tri a phedwar sy'n rymus ac effeithiol iawn Mae gan y bardd ddawn at gynnal delwedd e.e. 'Af a phlant yr Ysgol am dro....â welaf gynhaeaf'. Mae'n cloi'r

gerdd â pharagraff dirdynnol cofiadwy. Roedd y gerdd hon ymhlith y pedair cerdd orau yn y gystadleuaeth.

*Jonem* Cerdd gynnil ddiwastraff yn disgrifio erchylltra dwyn erwau Epynt a'u troi yn safle at ddibenion rhyfel. Mae gan y bardd nifer o fedrau a sgiliau at ei wasanaeth Yn eu plith mae glendid iaith, rhythmau sicr, gafael ar batrymau'r wers rydd a mynegiant uniongyrchol. At hyn mae'n gallu defnyddio eironi a dychan a hefyd mae'n cyfleu diffuantrwydd ac argyhoeddiad. Darlunnir ymweliad gan rai o'r hen drigolion a ddiwreiddiwyd pan oeddent yn blant gyda'u teuluoedd oherwydd dictad Llywodraeth ryfelgar . Llwydda'r bardd wrth wrthgyferbynnu'r hen drigolion â swyddogion y fyddin i serio dwyster a difrifoldeb yr hyn ddigwyddodd. Yr un modd defnyddia enwau'r hen ffermydd a'u cyferbynnu'r â'r enwau estron, diddychymyg a sarhaus a roddwyd ar y pentref ffug sydd yng nghanol y maes tanio. Daeth y gerdd hon yn glos iawn i'r brig a diolch am gael ei darllen.

*Mistar Mostyn* Cerdd gynganeddol gan fardd galluog ond sydd efallai ar ei brifant. Trawyd ar syniad da wrth ddehongli'r testun gan fwrw ati i fawrhau cyfoeth ac etifeddiaeth iaith a chenedl. Mae'n mynd rhagddo gan ddirwyn ein stori a'n chwedl fel Cymru rhagddi drwy gyfeirio at gyfoeth ein chwedloniaeth sydd yn y pendraw yn rhan o'n gwreiddiau ni fel pobl. Mae'r darn cywydd agoriadol yn agoriad effeithiol i'r gerdd ac yn llifo'n rhwydd ac esmwyth. Mae'r gyfres englynion hefyd yn osgoi'r perygl iddyn nhw fynd yn gatalog, yn bennaf oherwydd bod y nodweddion arbennig a berthyn i'r gwahanol gymeriadau chwedlonol yn creu amrywiaeth ohonynt eu hunain. Efallai y gallai'r clo gael ei gymhwyso ychydig er mwyn ystwytho'r mynegiant, ond cerdd a chryn gamp iddi a'r syndod yw i gymaint gael ei gyfleu o fewn cwmpas mor fyr.

Y pedwar sy'n dod i'r brig yw Twtil, Jonem, Bro Dawel, a Mistar Mostyn

Cyntaf Mistar Mostyn **Osian Rowlands, Llandwrog.**  
Ail Jonem **John Meurig Rowlands, Aberhonddu.**  
Cydradd Drydydd Bro Dawel a Twtil **Richard Lloyd  
Jones, Bethel, Caernarfon** (y ddwy gerdd).

## 2. Telyneg : Cwlwm

*Sendai* Telyneg gyfoes yn ymateb i drychineb Japan a digwyddiad a chanlyniadau'r Tsunami. Mae'r delyneg sy'n cyfleu'r gwewyr a'r dilema a deimlir wrth geisio dyfalu profiad y rhai oedd yng nghanol yr helbul. At ei gilydd mae gan y bardd reddf gadarn ond weithiau mae rhyw lacrwydd yn y mynegiant e.e. y byd sy'n galw heibio.

Ond mae cynllun pendant i'r gerdd ac mae'n cloi mewn modd sy'n argyhoeddi.

*Clegir* Telyneg i Tanny Grey-Thompson.

Cerdd ddiffuant a llawn edmygedd i'r athletwraig anabl. Crëir sawl darlun cofiadwy er mor fyr yw'r gerdd. Hoffais y ffordd y mae delwedd y gadair olwyn yn clymu'r gerdd. Hefyd llwyddir i greu cynildeb yn y gerdd drwy'r defnydd o linellau cynganeddol e.e. un-darn a'r haearn yw hi. Cynrychioli yw'r gair nid cynhyrchioli. Epigram o delyneg sydd bron yn trosglwyddo'r un naws ag a geir mewn englyn neu Haiku.

*Pedro* Syniad a allai fod yn un da ar gyfer telyneg ar y testun Cwlwm. Ceir yma ymgais i greu penillion ar batrwm cwpledi cywydd ond yn ddi-gynghanedd. Efallai mai rhagfarn o'm heiddo i ydyw ond rwy'n bersonol yn gweld defnyddio mesurau cynganeddol ar gyfer canu rhydd braidd yn chwithig i'r glust. Ceir amryw frychau iaith hefyd.

*Sioned* Telyneg a naws emyn bron iddi. Mae'r canu'n ddiwastraff ac uniongyrchol ond mae'r thema yn un oesol, ac oherwydd hynny nid yw'n hawdd cyfle ffresni yn y mynegiant. Y pennill clo yw'r cryfaf yn y delyneg gan fod y mynegiant yn yr ail a'r trydydd pennill ychydig yn afrwydd.

*Anwen* Telyneg syml ond mae ei gwead yn gadarn a chwaethus. Efallai bod defnyddio 'symud run cam' yn cyfleu rhywbeth gwahanol na'r hyn fwriadwyd.

Braidd yn hen ffasiwn yw defnyddio'r ansoddair o flaen yr enw e.e. perffaith lawenydd ond eto i gyd mae hon yn delyneg ddigon effeithiol a diffuant.

*Sam* Telyneg lan a'i gwead yn dynn. Llwyddir i gynnal y ddelwedd drwy'r gerdd o'r dechrau i'r diwedd. Nid wyf yn rhy siŵr a yw'r 'dau benllinyn' yn gweithio rywsut. Mae'r newid at y dadrith yn effeithiol ac mae'r clo yn argyhoeddi.

*Ala Las* Telyneg yn myfyrio ar y cwlwm sydd rhwng person a chapel ei fagwraeth. Mynegir y cyfan yn ddidwyll ac mae rhyw naws atgofus cyfoethog yn cael ei greu. Hoffais y 'cerrig ateb o amenio/yn dal o hyd yn y llechi llwyd'. Ond efallai bod y clo olaf un ychydig yn rhy felodramatig.

*Llŷr* Cwlwm (I fy mab)

Cerdd sy'n cyfleu poen tad sy'n dyheu am weld ei fab yn dychwelyd i'w hen gynefin. Mae'n gerdd gwbl destunol ac mae didwylledd mawr i'w deimlo yn y gerdd ar ei hyd. Mae'r gerdd yn adleisio geiriau anfarwol y diweddar Brifardd Dafydd Rowlands "Dere fy mab...". Yn y paragraff agoriadol crefir ar y mab i ddychwelyd o'r ddinas ac yn yr ail baragraff caiff gwewyr dwfn y tad ei fynegi'n gyhyrog. Nid yw'r mynegiant cystal yn y paragraff clo. Ond mae syniad da gan y bardd am natur a hanfod y wers rydd. Telyneg a allai fod wedi dod yn uwch yn y gystadleuaeth pe bai'r bardd wedi cymhennu'r darn clo.

*Gwyrth* Hoffais y gerdd hon ar y darlleniad cyntaf. Mae ynddi ffresni a didwylledd ac mae'r mynegiant drwyddi yn afaelgar. Ceir paragraff agoriadol synhwyrus. Caiff llawenydd y rhieni sy'n dotio ar yr un bach ei gyflwyno'n gynnil ond nid wyf yn siŵr a yw'r 'llaw fawr yn cwpanu un lai yn gadwyn o gariad' yn gweithio'n gwbl gredadwy.



Telyneg dwyllodrus o syml ond mae ei datblygiad yn gynnil a gafaelgar. Drwy'r delyneg ar ei hyd mae'r bardd yn amlygu'r ddawn i ddewis yr union air a'r union draw neu gywair. Mae'n disgrifio sefyllfa sydd mor hen â'r cread ond eto mae rhyw ffresni rhyfeddol yn y mynegiant. Ceir rhai trawiadau cwbl gofiadwy e.e. "a'th wên yn wefr hyfryd/i oleuo'r bore bach" a "i glywed alawon aberoedd pell/yn byrlymu drwy'r dychymyg..."

Cyntaf Gwyrth **Karina Wyn Dafis, Llanbryn-mair**

## 6. Soned: Cartref

*Merch y Mynydd* Soned sy'n cyfleu cariad at hen gartref ac aelwyd mewn modd dilys a diffuant. Yn yr wythawd cyntaf nid yw defnyddio'r un odl mewn pedair llinell olynol yn arferol. e.e. swyn, brwyn, llwyn, twyn. Ar y cyfan mae'r llinellau'n rhedeg yn llyfn o ran eu rhythm ond mae ambell un braidd yn drwsgl e.e "mae awel y mynydd yn bêr o gân"; "a gwenau tirion haul a ddaw y pnawn".

Yn anffodus mae hyn yn andwyo cerdd ddigon pleserus i'w darllen.

*Y Gelynnen* Er bod y syniad am ystyr cartref i'r bardd yn cael ei ddatblygu'n dda yn anffodus mae geiriau diacen ac acennog yn cael eu hodli e.e fyw /unigryw; ffin/cynefin. Canlyniad hyn yw bod mydr a rhythm y llinell a'r mesur yn cael ei sarnu. Hefyd mae'r llinell agoriadol yn rhyddieithol iawn i'm clust i. Ond o fwrw ati i astudio mesur y soned a'i hadeiladwaith rwy'n siŵr y bydd yr awdur yn cael gwell hwyl arni yn y dyfodol. Ond hoffais y gwpled sy'n cloi'r soned - dyma linellau mwyaf effeithiol y gerdd.

*Dafydd* Mae gan y bardd hwn afael gadarn ar hanfod y mesur. Ceir canu diwastraff a phob llinell a pharagraff yn ateb y diben i'r dim. Mae'n gerdd sy'n deyrnged i rieni am eu gofal a'u haberth ac mae'n gadarn ei datblygiad drwyddi gan ddod at

gwpled effeithiol ar y diwedd. Hoffais y cymal 'aethoch, gan adael deufwlch ar eich ôl'.

*Bethan* Soned sy'n ymdrin â phroblem ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gallu gwneud bywydau rhai pobl yn uffern ar y ddaear. Drwy hynny mae'n gerdd gyfoes iawn ac mae ei hidiom yn gadarn drwyddi ar y cyfan. Mae 'annihangol' braidd yn drwsgl i'm clust i ac nid wyf yn siwr a yw'r cwpled sy'n cloi yn gwbl rythmig o ran ei haceniad. Ond mae'n bortread teilwng a chredadwy o wewyr yr hen wraig yn wyneb bygythiadau ysgeler

Rhannu'r wobr yn £5 yr un rhwng

Dafydd a Bethan. **John Meurig Edwards, Aberhonddu** (y ddwy soned)

**Aled Gwyn**